# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl Lawn ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Anghenion Dysgu Arbennig, a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 1 Chwefror 2005.**

**At Alun Cairns:**

Yn ystod y ddadl yn y cyfarfod llawn ar 1 Chwefror 2005 ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Arolwg y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o Addysg Anghenion Arbennig Rhan 1: Nodi ac Ymyrryd yn Gynnar, cytunais i ysgrifennu atoch ynglŷn â chynlluniau ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol yng Nghymru.

Mae arolwg wedi cychwyn o gynllunio gweithlu a recriwtio, hyfforddi a chadw therapyddion lleferydd ac iaith. Er mwyn cynyddu niferoedd y therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru, yr ydym yn gweithio gyda'r prifysgolion i ddatblygu rhaglenni newydd ar gyfer hyfforddiant. Ar hyn o bryd yr ydym yn comisiynu 40 o leoedd y flwyddyn, a rhedir y rhaglen yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd. Ein bwriad yw datblygu rhaglen ychwanegol yng Nghymru, ac o fewn y datblygiad hwnnw yr ydym yn archwilio'r dewis o raglen 2 flynedd i raddedigion a/neu ddarpariaeth yn y Gogledd. Bydd datblygu'n digwydd eleni, gyda'r bwriad o gychwyn y rhaglen ar gyfer 2006. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd ymlaen i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith, a fyddai'n eu galluogi i ymgymryd â gwaith mwy cymhleth nag ar hyn o bryd ac felly ysgafnhau llwyth gwaith therapyddion.

Er mwyn ateb prinder sydd wedi ei nodi yn nifer y Therapyddion Galwedigaethol sy'n gweithio yng Nghymru, ac i ddelio â recriwtio yn y canolbarth a'r gogledd, mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Prifysgol Cymru Bangor ac Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru yn Wrecsam wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant ychwanegol. Canlyniad hyn yw rhaglen 4 blynedd ran amser newydd ar gyfer Therapi Galwedigaethol yn Wrecsam (derbyniwyd y myfyrwyr cyntaf ym Medi 2004) a dwy raglen gyflym 2 flynedd (i raddedigion) yng Nghaerdydd a Bangor, a gychwynnodd yn Ionawr 2005.

Fel y dywedwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet mewn ymateb ysgrifenedig i'r arolwg, "Gweithio Gyda'n Gilydd" cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar y cyd gan yr Adran Hyfforddiant ac Addysg a GIG Cymru. Mae'r ymatebion i'r ymgynghori hwn yn cael eu hystyried, a byddant yn sail i ganllawiau i AALlau a Gwasanaethau Iechyd Lleol ar ddarparu gwasanaethau lleferydd ac iaith yn y dyfodol i blant a phobl ifanc 0-19 oed ledled Cymru. Ei nod yw sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau felly, yn ogystal â'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaethau, rhieni, gofalwyr, a chyrff gwirfoddol cysylltiedig, yn cael cyfle i roi sylwadau ar unrhyw argymhellion ar gyfer newid.

Cafodd yr adroddiad dderbyniad da ar y cyfan ac yr oedd cefnogaeth (dros 50% yn cytuno) i'r holl argymhellion a gynigiwyd. Ymhlith y rheini mae'r dymuniad am Strategaeth Gyfathrebu Genedlaethol wedi ei datblygu i adnewyddu'r pwyslais sydd i leferydd, iaith a chyfathrebu yn natblygiad plentyn, a'r angen i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i ddatrys anghyfartalwch wrth ddarparu gwasanaethau ac i ddatblygu mecanweithiau priodol i fynd i'r afael â hwy.

Mae prosiectau comisiynu peilot i gychwyn yn Ebrill 2005. Yr ydym wedi dyrannu £500,000 ar gyfer 2005-06, 1 filiwn ar gyfer 2006-07 ac 1.5 filiwn ar gyfer 2007-08 i ddarparu cefnogaeth i AALlau yn eu cyfraniad i'r gyllideb gyfun.

Yr ydym hefyd wedi penodi cydlynydd ar gyfer gwasanaethau lleferydd ac iaith i sefydlu'r prosiectau peilot hyn ac i sicrhau gwasanaethau wedi eu comisiynu ar y cyd, gan ddefnyddio dull cyllideb gyfun fel rhan o'r Ddeddf Iechyd 1999. Bydd hyn yn sicrhau bod timau asesu ac ymyrryd yn gweithredu ar draws y meysydd iechyd ac addysg, a bod ymyrryd yn cael ei ddarparu mewn ysgolion ble bynnag y bydd yn bosibl. Rhoir blaenoriaeth i ofynion statudol datganiadau AAA, gan leddfu anawsterau o ran prif gyfrifoldeb a chyfrifoldeb terfynol felly. (Caiff hyn ei ariannu ar y cyd ar draws y meysydd Iechyd ac Addysg).

Bydd Grŵp Cyfeirio Allanol Cenedlaethol yn cael ei sefydlu. Bydd yn cael cyfarfod cychwynnol ym Mawrth 2005. Bydd y Grŵp yn monitro cynnydd wrth gyflawni'r argymhellion ac yn cynghori'r Cynulliad am faterion yn ymwneud ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Yn olaf, mae swydd Swyddog Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau lleferydd ac iaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd i weithio ochr yn ochr â'r cydlynydd wrth ddatblygu gwasanaethau Cymraeg ledled Cymru. Gobeithiwn wneud penodiad yn ddiweddarach yn y gwanwyn.